**Eich cyf / Your ref :**

**Ein cyf / Our ref :High School**

**Dvddiad / Date :**

**Rhif union / Direct dial :**

Annwyl Riant/Gwarcheidwad,

Efallai y gwyddoch, mae Gwasanaeth Prydau Ysgol Cyngor Sir Ddinbych yn un o'r gwasanaethau arlwyo awdurdod lleol sy'n perfformio orau. Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i ddarparu'r profiad gorau posibl i ddisgyblion Sir Ddinbych yn yr ysgol.

Mae'n cael ei gydnabod yn eang bod bwyta pryd ysgol sy'n gytbwys o ran maeth yn cael effaith gadarnhaol ar allu plentyn i ganolbwyntio drwy gydol y prynhawn. Mae'n flaenoriaeth i ni i allu darparu bwydlen iach ac amrywiol i bob disgybl yr ysgol

Rydym wedi ac yn parhau i weithio'n galed iawn gyda'n cyflenwyr i reoli côst bwyd, heb gyfaddawdu ar ansawdd y prydau a ddarparwn. Fel y gwyddoch o'r cynnydd ym mhrisiau bwyd mae côst cynhyrchu pryd o fwyd yn codi'n sylweddol. Er mwyn cynnal ein safonau uchel bresennol, yn anffodus mae angen cynyddu ein taliadau.

Felly, o 1 Ebrill 2024, byddwn yn anfoddog yn cynyddu cost Prydau Ysgol 30c y pryd ar gyfer pryd penodol y dydd. Bydd hyn yn golygu y bydd prydau Ysgol Uwchradd yn codi i £2.95 y dydd ac ychydig iawn o godiadau mewn prisiau ar rai eitemau unigol. Mi fydd y lwfans cyfatebol ar gyfer Prydau Ysgol am Ddim hefyd yn codi yn unol â hynny.

Er gwaethaf y cynnydd hwn mewn prisiau, credwn fod Gwasanaeth Prydau Ysgol Sir Ddinbych yn parhau i ddarparu gwerth rhagorol am arian ac wedi sicrhau ein bod yn parhau i fod ymhlith y mwyaf cystadleuol yng Nghymru o ran pris ac ansawdd.

Bydd buddsoddi yn ansawdd y prydau a ddarperir yn parhau i fod yn flaenoriaeth i ni. Bydd hyn yn sicrhau bod safonau'n parhau'n uchel a'n bod yn parhau i fod yn un o wasanaethau arlwyo ysgolion gorau'r DU.

Diolch am eich cefnogaeth barhaus.

Yr eiddoch yn gywir

**Hayley Jones**
**Principal Manager - Catering and Cleaning**

Caledfryn
Smithfield Road
Denbigh
Denbighshire LL16 3RJ
Phone: 01824 706748
e-mail: nigel.highfield@denbighshire.gov.uk
Website: www.denbighshire.gov.uk